**Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig** **ARD 06-02(min)**

## Cofnodion

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 17 Ebrill |
| **Amser:** | 2.00pm hyd 5.10pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

Yn bresennol

| | |
|---|---|
| *Aelodau* | |
| Glyn Davies, *Cadeirydd* | Canol a Gorllewin Cymru |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Cynog Dafis | Canol a Gorllewin Cymru |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Ron Davies | Caerffili |
| Delyth Evans | Canol a Gorllewin Cymru |
| John Griffiths | Dwyrain Casnewydd |
| Carwyn Jones, *Gweinidog* | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Peter Rogers | Gogledd Cymru |
| Carwyn Jones | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Rhodri Glyn Thomas | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |
| *Swyddogion* | |
| Huw Brodie | Cyfarwyddwr, Yr Adran Amaethyddiaeth a Materion Gwledig |
| Fiona Adams-Jones (eitem 2) | Yr Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio |
| Peter McAllen (eitem 2) | Yr Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio |
| Rory O’Sullivan (eitemau 2 & 4) | Yr Is-adran Polisi Amaethyddiaeth a Physgodfeydd |
| Kirstie Kirk (eitem 2) | Ymgynghorydd Milfeddygol |
| Jim Norrie (eitem 2) | Yr Is-adran Iechyd Anifeiliaid |
| Gareth Jones (eitem 5) | Gweithrediadau Clwy’r Traed a’r Genau |
| Huw Davies | Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol |
| *Ysgrifenyddiaeth* | |
| Adrian Crompton | Clerc Pwyllgor |
| Liz Wilkinson | Dirprwy Glerc Pwyllgor |

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, cyfnewidiadau a datganiadau o fudd**

1. Gwnaethpwyd y datganiadau isod gyda golwg ar fudd:

- Dywedodd y Cadeirydd ei fod ef a'i wraig yn bartneriaid mewn busnes ffermio a'i fod yn aelod o Hybu Cig Oen ac Eidion Cymru;

- Dywedodd Peter Rogers ei fod ef, ei wraig a'i fab yn bartneriaid mewn busnes ffermio a'i fod yn aelod o Hybu Cig Oen ac Eidion Cymru.

- Dywedodd Mick Bates ei fod ef a'i wraig yn bartneriaid mewn busnes ffermio a'i fod yn aelod o Hybu Cig Oen ac Eidion Cymru.
- Cyfeiriodd y tri at fanylion llawnach a oedd ar gael yn y Rhestr o Ddiddordebau Aelodau.

**Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog: ARD 06-02 (p1)**

***TB mewn Gwartheg***

2.1 Eglurodd y Gweinidog fod y cyfrifoldeb am reoli TB, yn wahanol i agweddau eraill ar iechyd anifeiliaid, wedi ei ddirprwyo. Roedd hyn o ganlyniad i wahaniaethau wrth ddrafftio'r ddeddfwriaeth sylfaenol berthnasol.

2.2 Mynegwyd pryder ynghylch nifer y profion twbercwlosis a oedd heb eu gwneud a'r cyfyngiadau symud gwartheg a ddaeth yn sgil hynny. Yr oedd y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol yn rhoi blaenoriaeth i ddelio gyda'r holl brofion na chawsant eu gwneud yn ystod argyfwng clwy'r traed a'r genau. Yr oedd y Gwasanaeth wedi neilltuo mwy o staff er mwyn gostwng y nifer ac yr oedd y Gweinidog wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig er mwyn tynnu sylw at yr angen am fwy o adnoddau i'r Gwasanaeth yng Nghymru.

2.3 Nododd yr Aelodau y gallai defnyddio'r prawf interfferon gama helpu i ganfod gwartheg heintiedig mewn buchesi a oedd wedi cael canlyniadau cadarnhaol i brofion T.B. Er hyn, dylid ystyried y prawf fel rhywbeth fyddai'n ategu'r dulliau profi presennol, yn hytrach na chymryd eu lle.

2.4 Mynegodd yr Aelodau siom nad oedd astudiaeth Krebs yn cynnwys ardaloedd yng Nghymru a oedd â nifer o achosion o TB mewn gwartheg ac awgrymasant fod angen mwy o waith ymchwil i'r clystyrau a welid yng Nghymru. Gan na fyddai canlyniadau profion Krebs ar gael hyd 2004, yr oedd angen strategaeth dros dro. Dywedodd y Gweinidog fod strategaeth arfaethedig yn cael ei datblygu ar y cyd ag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a'r Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol ac y dylai fod ar gael yn ystod y mis nesaf. Cytunodd i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ynghylch y strategaeth dros dro a rhoi cyfle, os byddai amser yn caniatáu, i'r Pwyllgor ystyried y polisi dilynol.

2.5 Nododd y Pwyllgor nad oedd brechiad effeithiol rhag TB mewn gwartheg yn debygol o fod ar gael am o leiaf 10 mlynedd a bod bodolaeth TB mewn anifeiliaid eraill yn golygu nad oedd y DU yn cydymffurfio â holl Gyfarwyddebau'r UE, a oedd yn cymryd yn ganiataol bod polisi o ddileu'n gyfan gwbl yn bodoli.

***Mewnforio Cig Anghyfreithlon***

2.6 O ganlyniad i brofiad diweddar y DU gyda chlwy'r traed a'r genau a'r rheolyddion sy'n cael eu defnyddio'n llwyddiannus mewn gwledydd eraill, teimlai'r Aelodau ei bod yn bwysig iawn gweithredu camau llymach er mwyn sicrhau nad oes cig anghyfreithlon yn cael ei fewnforio. Nododd y Pwyllgor fod y Gweinidog wedi ysgrifennu at borthladdoedd Cymru a chwmnïau awyrennau a oedd yn defnyddio meysydd awyr Cymru i'w hatgoffa o'u cyfrifoldeb i leihau'r risg o fewnforio cig anghyfreithlon.

***Y Diweddaraf am Gyswllt Ffermio***

2.7 Mynegwyd pryderon ynghylch cost uchel ymweliadau ymgynghorwyr â ffermydd a'r amser aros rhwng y cyswllt cyntaf a'r ymweliad cyntaf. Nododd y Pwyllgor mai'r rheswm am yr oedi oedd bod ffermwyr wedi bod yn gofyn am yr ymgynghorwyr mwyaf poblogaidd neu adnabyddus. Yr oedd sylw'n cael ei roi i'r broblem ond yr oedd yn bwysig peidio ag aberthu ansawdd y cyngor a gynigid. Pwysleisiodd y Gweinidog fod angen i ymgynghorwyr ymweld â ffermydd er mwyn gweld busnesau unigol. Yr oedd y cyfraddau a godid yn is na chyfraddau'r sector preifat, ac awgrymai hyn nad oedd yr ymgynghorwyr yn derbyn gormod o dâl. Cytunodd y Gweinidog i ddosbarthu ffigyrau yn dangos cyfartaledd cost ymweliadau ymgynghorwyr â ffermydd dan Gyswllt Ffermio i Aelodau'r Pwyllgor.

2.8 Yr oedd rhai ffermwyr wedi gorfod talu costau yn ystod y broses adolygu, er enghraifft, o ganlyniad i gyflwyno ceisiadau cynllunio, a chael clywed wedyn nad oedd eu busnes yn hyfyw. Nododd yr Aelodau mai'r bwriad oedd cynnig asesiad cychwynnol o hyfywedd busnes er mwyn osgoi digwyddiadau o'r fath.

2.9 Cytunodd y Gweinidog i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ynghylch y posibilrwydd o ddefnyddio grantiau prosesu a marchnata i wneud iawn am y gwahanol gyfraddau grant a oedd ar gael i ardaloedd Amcan 1 ac Amcan 2.

2.10 Cytunodd y Gweinidog i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor er mwyn egluro'r rheolau sy'n ymwneud â phartneriaid fferm dan 40 oed sy'n gweithio yn rhywle ar wahân i'r fferm a'u cymhwyster i gael grant.

***Deddfwriaeth Eilaidd***

2.11 Cytunodd y Pwyllgor y dylid cynnwys archwiliad o Reoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Tir heb ei Drin ac Ardaloedd Lled-naturiol) (Cymru) 2002 ar yr agenda ar gyfer cyfarfod 1 Mai.

2.12 Nododd y Pwyllgor y byddai angen rhoi mwy o rybudd er mwyn gwneud archwiliad ffurfiol o

offerynnau statudol yn y dull a ragwelid yn y Rheolau Sefydlog. Cytunodd yr Aelodau i gysylltu â'r Cadeirydd er mwyn awgrymu offerynnau statudol y dymunent eu hystyried yn y Pwyllgor.

2.13 Cytunodd y Gweinidog i gynnwys cynigion ar gyfer cynllun diwygiedig Tir Mynydd ar yr agenda yn y dyfodol.

2.14 Nododd y Pwyllgor mai'r dyddiad a bennwyd ymlaen llaw ar gyfer ystyried y deunydd a gyflwynwyd i'w ymchwiliad i effaith hela gyda chwn oedd 19 Mehefin.

**Materion eraill**

2.15 Tynnodd yr Aelodau sylw'r Gweinidog at becynnau addysgol gan Gyngor Ewropeaidd y Ffermwyr Ifanc a gynlluniwyd er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o amaethyddiaeth ymhlith plant ysgolion cynradd. Nododd y Gweinidog y byddai angen cyfieithu'r pecynnau i'r Gymraeg a sicrhau eu bod yn gydnaws â'r cwricwlwm cenedlaethol cyn y gellid eu defnyddio yng Nghymru.

2.16 Roedd y Gweinidog wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn gofyn iddi sicrhau bod iawndal amaeth-ariannol yn cael ei dalu. Cytunodd y byddai'n cysylltu â'i gymheiriaid yn yr Alban a Gogledd Iwerddon gan awgrymu eu bod hwythau'n gwneud hyn.

**Camau gweithredu**

Y Gweinidog i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ynghylch y strategaeth dros dro ar TB a fyddai'n cael ei chyhoeddi yn y dyfodol ac i roi amser i'r Pwyllgor ystyried y newidiadau polisi dilynol os yn bosibl – **Y Gweinidog, Yr Is-adran Iechyd Anifeiliaid**

Y Gweinidog i ddosbarthu ffigyrau yn nodi cyfartaledd cost ymweliadau ymgynghorwyr â ffermydd dan Gyswllt Ffermio i Aelodau'r Pwyllgor **– Y Gweinidog, Yr Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio**

Y Gweinidog i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ynghylch y posibilrwydd o ddefnyddio grantiau prosesu a marchnata i wneud iawn am y gwahaniaeth yng nghyfraddau'r grantiau ar gyfer ardaloedd Amcan 1 ac Amcan 2 **– Y Gweinidog, Yr Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio**

Y Gweinidog i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor er mwyn egluro'r rheolau sy'n ymwneud â phartneriaid fferm dan 40 oed sydd hefyd yn gweithio yn rhywle ar wahân i'r fferm **– Y Gweinidog, Yr Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio**

Archwilio Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Tir heb ei Drin ac Ardaloedd Lled-naturiol) (Cymru) 2002 i'w gynnwys ar yr agenda ar gyfer cyfarfod 1 Mai **– Y Gweinidog, Yr Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio, Ysgrifenyddiaeth**

Cynigion ar gyfer Tir Mynydd 2 i'w cynnwys fel eitem ar yr agenda yn y dyfodol **– Y Gweinidog, Yr Is-adran Polisi Amaethyddiaeth a Physgodfeydd, Ysgrifenyddiaeth**

**Eitem 3: Antur Cig Cymru: ARD 06-02 (p.2)**

3.1 Yn ystod y drafodaeth, mynegodd Aelodau'r Pwyllgor y pryderon isod:

- Yr oedd lle i amau a fyddai'r cynlluniau i sefydlu Antur Cig Cymru (ACC) yn cyflawni eu nod o symleiddio gweithgareddau marchnata a hyrwyddo'r sector cig coch gan eu bod yn creu corff arall yn ychwanegol at y tri chorff sy'n ymwneud â'r gwaith yn barod.

- Byddai'n anodd rhoi sylw i'r pryderon gwahanol a fynegwyd yn yr ymgynghoriad ynghylch strwythur y corff newydd, yn enwedig aelodaeth y Bwrdd. Byddai angen cael cydbwysedd er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn cael cyfuniad priodol o sgiliau a chynrychiolwyr heb iddo fynd yn rhy fawr ac yn anodd ei drin.

- Byddai angen diffinio rôl y corff newydd yn glir ac ystyried y gwahaniaeth rhwng ei gyfrifoldebau hyrwyddo a marchnata. Pwysleisiodd yr Aelodau fod angen adeiladu ar gryfderau cyrff sy'n ymwneud yn barod â hyrwyddo a marchnata cig.

- Yr oedd yn bwysig egluro pa effaith y byddai'r strwythur arfaethedig yn ei gael ar aelodau unigol Hybu Cig Oen ac Eidion Cymru.

- Ni chynhaliwyd unrhyw gyfarfod, hyd yn hyn, rhwng Hybu Cig Oen ac Eidion Cymru, Awdurdod Datblygu Cymru a'r Comisiwn Cig a Da Byw i drafod sut i weithredu'r cynllun.

3.2 Mewn ymateb i'r pryderon hyn dywedodd y Gweinidog mai mater i Hybu Cig Oen ac Eidion Cymru, yr Awdurdod Datblygu a'r Comisiwn Cig a Da Byw oedd strwythur y corff newydd, gan gynnwys cynrychiolaeth ar y Bwrdd, ond yr oedd y ddogfen ymgynghorol wedi nodi y dylai'r Bwrdd fod â chynrychiolwyr o wahanol rannau o'r gadwyn gyflenwi. Nododd y Pwyllgor y byddai'r cyfarfod cyntaf rhwng y tri chorff yn cael ei gynnal ar 24 Ebrill. Teimlai'r Gweinidog y byddai datblygu un corff strategol yn cryfhau'r gweithgareddau marchnata a hyrwyddo presennol ac yn galluogi Cymru i gystadlu'n llwyddiannus ym marchnadoedd Ewrop a'r byd.

**Eitem 4: Ffermio i'r Dyfodol: ARD 06-02 (p3)**

4.1 Croesawodd y Cadeirydd y cyfle i drafod cynnydd Ffermio i'r Dyfodol yn y Pwyllgor.

4.2 Croesewid y syniad o ddefnyddio nifer y gwahanol fathau o adar fel dangosydd perfformiad. Awgrymwyd y dylid gwneud mwy o waith ar y cyd ag Ymddiriedolaeth Adaryddiaeth Prydain a'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar er mwyn gwella perthnasedd ac ansawdd data'r mesuryddion a ddewiswyd. Yn fwyaf arbennig, dylid allosod data cymharol cyn 1994 er mwyn canfod tueddiadau

tymor hir. Cytunodd y Gweinidog i gynnwys gwell data ar adar tir amaethyddol yn adroddiad cynnydd mis Gorffennaf.

4.3 Codwyd y pwyntiau isod gyda golwg ar gamau gweithredu'r ddogfen:

*Cam gweithredu 5:*

Cadarnhaodd y Gweinidog fod aelod o staff Adran Amaethyddiaeth a Materion Gwledig y Cynulliad wedi ei benodi i swydd barhaol ym Mrwsel.

*Camau gweithredu 6 a 7:*

Dylid rhoi sylw i anghenion cynhyrchwyr organig yng Nghymru wrth ddelio gydag archfarchnadoedd ac adwerthwyr mawr. Dywedodd y Gweinidog fod y posibilrwydd o daliadau parhaol i'r sector organig ar ôl troi'n organig yn cael ei archwilio ar hyn o bryd.

Yr oedd y sector llaeth wedi gweld gostyngiad mewn prisiau gan archfarchnadoedd yn ddiweddar. Galwodd yr Aelodau ar y Gweinidog i bwyso am gynnydd yn y pris a gynigid i ffermwyr am laeth ac am iawndal amaeth-ariannol i'r sector llaeth. Nododd y Gweinidog fod pris llaeth yn adlewyrchu cyflwr y farchnad a chyfeiriodd at ei sylwadau cynharach ar iawndal amaeth-ariannol.

*Cam gweithredu 8:*

Mynegodd yr Aelodau bryder ynghylch y cyfyngiad 20 diwrnod ar symud da byw a oedd yn dal i fodoli. Nododd y Pwyllgor nad oedd hwn yn fater dirprwyedig. Fodd bynnag, yr oedd y Gweinidog wedi cyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU a byddai'r mater yn cael ei adolygu ar ôl y tymor wyna.

*Cam gweithredu 10:*

Yr oedd y gweithgor dan arweiniad y Cynulliad a oedd yn trafod cael gwared ar glefyd y crafu wedi cyfarfod sawl gwaith. Yr oedd angen i'r UE gymeradwyo'r pecyn arfaethedig cyn y gellid gwneud unrhyw gyhoeddiad arall.

*Cam gweithredu 25:*

Mynegodd yr Aelodau siom nad oedd y rownd ddiweddaraf o ddiwygiadau PAC wedi cynnwys darpariaeth i ganiatáu i brosiectau biomas elwa o arian a ryddhawyd o ganlyniad i ddadgyplu cymorthdaliadau oddi wrth gynhyrchu. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn debygol y byddai sylw'n cael ei roi i ddadgyplu yng nghyd-destun yr adolygiad PAC canol tymor, ac y byddai'r cynlluniau'n cael eu cyhoeddi ddiwedd Mehefin.

*Camau gweithredu 32,33,34 a 35:*

Pwysleisiodd y Pwyllgor fod angen cyflwyno camau priodol er mwyn helpu ffermwyr ifanc. Nodwyd bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i gorlannu cwotâu defaid a gwartheg er mwyn rhoi blaenoriaeth i ffermwyr ifanc ym mlwyddyn gwota 2003.

*Cam gweithredu 40:*

Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor fod adroddiad ar gynnydd y system Apeliadau Annibynnol wedi ei drefnu ar gyfer cyfarfod 15 Mai.

*Cam gweithredu 44:*

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch gweithredu'r cynllun Ffermwyr Bychain er mwyn symleiddio taliadau PAC, cytunodd y Gweinidog i gynnwys manylion ynghylch gweithredu'r cynllun yn ei adroddiad ysgrifenedig nesaf.

**Camau gweithredu**

Y Gweinidog i gynnwys gwell data ar adar tir amaethyddol yn adroddiad cynnydd mis Gorffennaf **– Y Gweinidog, Yr Is-adran Polisi Amaethyddiaeth a Physgodfeydd, Ysgrifenyddiaeth**

Manylion am weithrediad Cynllun Ffermwyr Bychain yr UE i'w cynnwys yn Adroddiad nesaf y Gweinidog – **Y Gweinidog, Yr Is-adran Polisi Amaethyddiaeth a Physgodfeydd**

**Eitem 5: Y ffordd yr aed i'r afael â chlwy'r traed a'r genau yng Nghymru: ARD 06-02 (p4)**

5.1 Gofynnodd yr Aelodau a ellid cynnwys cyfeiriad at faterion yn ymwneud â lles anifeiliaid yn yr adroddiad. Yn ychwanegol at hyn, awgrymwyd mân newidiadau i'r adrannau ar gynllunio ar gyfer argyfwng a brechu.

5.2 Cytunodd y Cadeirydd y byddai drafft diwygiedig yr adroddiad yn cael ei gylchredeg i'r Aelodau er mwyn iddynt ei gymeradwyo. Byddai'r adroddiad terfynol yn cael ei anfon i ymchwiliadau Anderson, Follett a Senedd Ewrop, ac at y rhai hynny a gyflwynodd wybodaeth ar ffurf tystiolaeth i'r ymchwiliad.

**Camau gweithredu**

Drafft diwygiedig o'r adroddiad ar ymchwiliad y Pwyllgor i'r ffordd yr aed i'r afael â chlwy'r traed a'r genau i'w gylchredeg i'r Aelodau er mwyn iddynt ei gymeradwyo **- Ysgrifenyddiaeth**

Yr adroddiad terfynol i'w anfon i ymchwiliadau Anderson, Follett a Senedd Ewrop, ac at y rhai hynny a

gyflwynodd wybodaeth ar ffurf tystiolaeth i’r ymchwiliad **- Ysgrifenyddiaeth**

**Eitem 6: Adolygiad y Pwyllgor ar ffermio organig: ARD 06-02 (p5)**

6.1 Yn amodol ar un newid bach cytunwyd ar gylch gorchwyl yr adolygiad polisi. Gofynnodd yr Aelodau a fyddai modd i’r adolygiad edrych ar dalu cymorthdaliadau parhaus am gynnyrch organig a phrofiad ardaloedd eraill yn Ewrop.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**

**Ebrill 2002**